Enwau caeau a nodweddion Eraill ym mro Aled

Cyflwyniad

Yn amaethyddol bu newid mawr yn y byd. Newidwyd o'r ceffyl I beiriannau sydd wedi hwyluso gwaith y ffermwr. Mae maint o waith a ddigwydd mewn diwrnod yn anhygoel o gymharu â phedwardegau'r ganrif o'r blaen.

Gan fod un dyn yn medru cyflawni mwy, aeth y tir dan ofal un yr llawer mwy, mae angen mwy o dir hefyd I allu ennill bywoliaeth.. Mae gwasgfa ar bris bwyd wedi bod mewn bodolaeth am gyfnod yn tynnu am gan' mlynedd.

Gwelwyd symud terfyn I gae ac felly enw'n diflannu. Perchennog newydd ddim yn gwybod enwau caeau'r daliad newydd. Rhais derbyn fod enwau newydd yn anorfod o bryd I'w gilydd.

Cafwyd llawer o'r enwau o gyfrifol Degwm yr ardal yn 1845. Diolchaf hefyd am gymorth nifer o unigolion. Yn ôl map y cyfnod yr oedd plwyf Llansannan yn 15,544 acer. Disgrifir 3,500 yn 'arable' gyda 2,396 yn 'meadow and pasture', 1,000 'uboid land'. Ni does gennyf syniad beth yw 'uboid'. Dywedir fod 6,000 o dir comin, credaf fod hyn yn rhy isel, ac nid yw'r ffigyrau'n dod I'r cyfanswm uchod. Telid 5 ceiniog y fferm. Am fuwch a llo 1c, as am gaseg a chyw 2 geiniog. Roedd taliadau ar bob bwshel o wenith, haidd a cheirch. Credef fod asesiad yn cael ei wneud bob tair blynedd.

Derbynnid £606 o ddegwm gyda'r person a'r ciwrad yn cael £413, byddai rhyw hanner y swm yn mynd at dreuliau'r eglwys. Telid £16 I'r esgob yn Llanelwy.

Gyda llai lawer o amaethwyr yn trafferthu troi defaid I'w cynefin mae enwau bryniau, ac yn y blaen ar y mynydd yn ddieithr I lawer Nodaf rai ohonynt yma. O fynd ar fynydd Hiraethog drwy lidiart uwchlaw Bryn Llwyn, mae darn a elwir yn 'Rodeth, 'does gennyf ddim syniad am ei ystyr, hefyd Rhos Bryn Llwyn, ac arall Rhos Bryn Llwyd, Ceir Bengam I'r gorllewin o Hafod Dafydd.

Ar ôl teithio rhyw filltir gan gadw golwg ar yr afon Aled I'r dde, deuwn at Nant trwyn Swch, sydd mewn hafn ddofn iawn, ac yn ysgafnhau allan I arwyneb y mynydd. Yng nghoed Bron Llewylyn, gwelwir ef yn goed Nant Merddynar y map, mae Llyn yr Oror. Trobwll peryglus iawn ar yr afon Aled. Ceir nifer o bistylloedd a rei chychwyn o Lyn Rhyd y Bedd, new Lyn Aled Isaf gan y Bwrdd Dwr. Y Rhaeadr fwyaf yw'r Rhaeadr y Bedd o dan y argae.

Wedi gadael Nant trwyn Swch deuwn at ran rugog a elwir yn Trwyn Swch. Ceir Llyn Moelfrech yma, gyda Nant Moelfrech yn llifo ohoni I ran uchaf Llyn Rhyd y Bedd. Yn ymmuno â hi mae Nant y Foel Ddu, gyda rhan o'r mynydd rhyngddynt mae cesyg Aled.

Wrth ddal I fynd down at Llyn Aled, llyn naturiol. Cronnwyd dwr y llyn isaf I gael dwr I'r arfordir. Gelwir y llyn weithiau'n Waith Dwr Rhyl. Rhwng y ddau I'r Gorllewin mae Moel y Gaseg Wen. Ceir ffôs yn llifo I'r Llyn Isaf I'r Gogledd o Moel Caseg Wen a elwir yn Nant Bach.

O ddod yn nes I Lansannan deuwn at ddarn o fynydd sydd bron wedi gau, Bryn Poeth, ac yna Foel Lwyd yn y pen isaf. Cychwyn Nant Melai yma gan lifo I lawr ac ymuno ag afon Cledwen ychydig filltiroedd I ffwrdd.

Cyn dod allan o'r mynydd byddwn yn pasio tomen neu tumulus. Un arall I'r dde ar ol mynd heibio tro Ty'n Mynydd. Ceir rhai eraill I gyfeiriad Gwytherin. Mae tumulus ym mynydd Fforest ac yn caeau gyferbyn perthynol I Pant Cefn. Mae eraill yn y Fro, cawn sôn amdanynt wrth drafod caeau a'u ffermydd.

Bu cryn dipyn o weithio am fwyn yn y cylch rhyw ganrif a hanner new fwy yn ôl o bosib. Bu cloddio am gopr I’r Gogledd ac I’r Dwyrain I Ddyffryn Aled yn weddol agos at y tŷ.

Dyma ganrif cau’r Comin (19fed ganrif) ac mae’r gair ‘encroachment’ yn dod ar restir tir y fferm. Rhoddaf enw presennol y fferm, a’r un a ddefnyddir gan Swyddogion y Degwm mewn cromfachau. Diddorol yw enw Cae Ffrainc (Cae Coed), Chirk Castle lands (Fferwd), Stad Middleton mae’n debyg, Cae Clover mewn ambell le. Tebyg fod hau clofer yr arfer newydd. Ffrith y trenau (Fforest). Ceir llawer enw personol. Roedd cyfartaledd y ffermydd yn rhyw 55 acer, ac yn talu £6.50 o degwm. Mae’r gair Croft, ‘Rofft, Groffydd yn dod I fyny yn aml. Mae’r ‘crofter’ yn dyddynnwr yng Ngogledd yr Alban.